1 –2 awr

# Adeiladu Gwesty i Bryfed

**Yr offer sydd ei angen**

- Copi o'r daflen 'Gwesty i Bryfed', un i bob grŵp
- Paleti pren neu blanciau o bren
- Brics
- Hen boteli plastig
- Gwiail bambŵ
- Gwellt / dail / brigau / rhisglau / cerrig a cherrig mân
- Teils
- Cardbord

## I adeiladu'r gwesty

Yr amser gorau i adeiladu gwesty i bryfed yw'r hydref gan fod y deunyddiau ar gael, ond gellir eu hadeiladu unrhyw adeg.


1. Rhannwch y dysgwyr i grwpiau. Os oes gennych chi ddigon o offer, yna gall pob grŵp wneud eu gwesty eu hunain. Os nad oes gallwch rannu'r tasgau e.e. un grŵp yn llenwi'r poteli plastig, un grŵp yn pentyrru'r paleti, un grŵp yn plannu planhigion ar gyfer y top, gwneud yr arwydd ac ati.
2. Pentyrrwch y paleti neu'r planciau o bren gan ddefnyddio'r brics rhwng pob haen fel eich bod yn creu nifer o adrannau petryal bach.
3. Llenwch yr adrannau gyda gwahanol gyfuniadau o eitemau, i greu gwahanol feintiau a mathau o fylchau a holltau.
4. Llenwch y bylchau gyda dail a gwellt.
5. Ychwanegwch blanhigion neu wair ar ben y pentwr o baleti.
6. Gellir addurno'r strwythur gorffenedig, ac o bosibl cynnwys arwydd i enwi'r gwesty neu baentio lluniau o bryfed ar bren a cherrig.

# Gwesty i Bryfed

**Helpwch bryfed i oroesi'r gaeaf drwy adeiladu gwesty i bryfed.** Sicrhewch fod ganddo lawer o wahanol ddeunyddiau, bylchau a holltau fel bod nifer o wahanol fathau o bryfed yn gallu byw yno.


## CAM 1

Mewn grwpiau, pentyrrwch eich paleti neu ddarnau mawr o bren rhwng y brics fel bod gennych adrannau bach.





## CAM 2

Llenwch eich poteli plastig gyda'r gwiail bambŵ, neu gardfwrdd wedi'i rolio. Gwnewch bentyrrau o deils a brigau.



## CAM 3

Llenwch y bylchau gyda gwellt, dail, brigau a cherrig mân. Gwnewch yr holl adrannau a llenwch bob un ohonynt. Ychwanegwch blanhigion ar y top.






Y chwilen gorniog yw'r rhywogaeth fwyaf o ran pryf sydd i'w chael yn y DU.